At Weinidogion Cymru

**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 Dyletswyddau Adrodd**

Yn unol â'r dyletswyddau sydd o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, wele isod adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ceredigion.

| | |
|---|---|
| Y camau sydd wedi eu cymryd i hybu siwrneiau llesol | - Buom mewn cysylltiad ag Ysgolion Uwchradd Penglais, Penweddig, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi ynglŷn â'u cynnwys ar raglen Sustrans ar gyfer Hybu Teithio Llesol yn yr Ysgolion.<br>- Cafodd sesiynau Teithio Llesol eu cynnal ar y cyd â Sustrans gyda disgyblion Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan er mwyn cefnogi'r cais llwyddiannus am grant o dan y cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau SRIC 2016/17.<br>- Bu cyflwyniadau gydag ysgolion cynradd ac uwchradd Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan fel rhan o'r ymgynghori ynghylch y Map Llwybrau presennol.<br>- Wedi gwella arwyddion llwybrau Aberystwyth.<br>- Datganiadau i'r wasg leol ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud gydag arian grantiau ar gyfer creu seilwaith newydd Teithio Llesol. |
| Yr hyn sydd wedi ei wneud i greu llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig. | - Gweler y ddogfen 'Adroddiad Teithio Llesol Ceredigion 2015-16' |
| Costau'r llwybrau teithio llesol newydd a'r cyfleusterau a gwelliannau i'r llwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig yn y flwyddyn ariannol gyfan flaenorol. | - Cyllid LlC £113,773<br>- Cyllid cyfatebol CSC £ 23,621<br>- Gwariant CSC £ 2,823<br>- **CYFANSWM** = £140,217 |
| | - |

Yn ychwanegol at yr uchod (dewisol):

| | |
|---|---|
| Y gwariant dangosol ar lwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau i'r llwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu hariannu neu'u hariannu'n rhannol gan drydydd parti. | - [nodwch y gwariant dangosol a ffynhonnell y cyllid] |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| |

Cadarnhaf y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi'n unol â'r Canllawiau Cyflenwi Statudol.

Y Prif Weithredwr

# Adroddiad Teithio Llesol 2015/16 – Cyngor Sir Ceredigion

## Cronfa Drafnidiaeth Leol – AB14 Plas Crug ‘Cam 2’

Cafwyd £90,000 o arian grant gan Gronfa Drafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru a £10,000 o arian cyfatebol gan Gyngor Sir Ceredigion i gwblhau cynllun Plas Crug a oedd wedi dechrau yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

O dan gynllun 2015/16 cafodd y llwybr amlddefnydd ei ledu hyd at 3 metr o led rhwng yr Ysgol Gymraeg ac Ysgol Gynradd Plas Crug ac fe gafodd y goleuadau stryd eu gwella hefyd ac yn awr mae goleuadau ar y rhan yma o'r llwybr er mantais i gerddwyr a beicwyr.

Nod y cynlluniau yma oedd helpu lleihau'r tagfeydd traffig difrifol a fu ym Mhlas Crug yn ystod y blynyddoedd diwethaf a arweiniodd at ffurfio Partneriaeth Teithio Plas Crug yn 2012.

O dan y cynllun cafodd llwybr amlddefnydd, di-dor ei greu rhwng Ysgol Penweddig yn Llanbadarn, o flaen Canolfan Hamdden Plas Crug ac at Ysgol Gynradd Plas Crug. Creodd hynny gysylltiad Teithio Llesol â phont y rheilffordd a'r rhwydwaith llwybrau sydd ar Boulevard St Brieuc h.y. Llwybr Seiclo Rheidol. Creodd hefyd gysylltiad di-draffig â chanol Tref Aberystwyth.

Cafodd lloches newydd ar gyfer 30 o sgwteri ei chodi yn Ysgol Gynradd Plas Crug fis Awst 2015. Roedd dan ei sang yn syth bin ar ddechrau'r tymor newydd. Mae sgrialu i'r ysgol yn boblogaidd iawn.

Cafodd y gwaith adeiladu ei gwblhau rhwng yr Ysgol Gymraeg ac Ysgol Plas Crug yn ystod gwyliau'r haf, gan darfu cyn lleied â phosib ar y disgyblion, y rhieni a'r staff.




Uchod: Dyw lloches y beics a'r sgwteri ddim yn ddigon mawr i ddiwallu'r galw.

Isod: Agor lloches sgwteri newydd Ysgol Gynradd Plas Crug.



Isod: Dyma lun o'r llwybr amlddefnydd fel yr oedd cyn iddo gael ei wella a'i ledu.





Uchod: Cyn y cynllun. Isod: Croesfan ddyrchafedig newydd a llai o bellter i groesi a radiysau tynnach ar y gyffordd. Bolardiau newydd a llwybr amlddefnydd lletach ac wyneb tarmac newydd.



Isod: Croesfan ddyrchafedig newydd wrth fynedfa'r Clwb Rygbi ger Ysgol Gynradd Plas Crug.



Isod: Arwyddion cyfeirio gwell ar gyfer beicwyr a cherddwyr.







Isod: Y rhan newydd o'r llwybr amlddefnydd o flaen Canolfan Hamdden Plas Crug sy'n mynd at Ysgol Uwchradd Penweddig.


ARAF
SLOW



Isod: Cafodd sianel newydd ei chreu i wella mynediad er mwyn i feicwyr allu ymuno â'r llwybr amlddefnydd yn Ysgol Penweddig.




Isod: Llun yn dangos y llwybr fel yr oedd cyn gwelliannau'r cynllun a rhan lle mae'r glaswellt wedi pallu yn dangos lle'r oedd pawb am gerdded.



Isod: Llun o'r llwybr ar ôl ei ledu a'i wella a'r ardal lle mae coed wedi eu hailblannu, er mwyn gwneud iawn am unrhyw golledion ecolegol a gafwyd o ledu'r llwybr ar hyd Plas Crug. Mae'r cynllun ailblannu wedi cymryd ei le gyda'r coed sydd ym Mhlas Crug yn hanesyddol. Mae'n cynwys cymysgedd o goed derw, celyn a llwyni bytholwyrdd.





## Starling Cloud Cam 2

Dyma lwybr cyswllt prysur at y bont droed sy'n arwain at rwydwaith ysgolion Plas Crug.

Uchod: Llun o'r ardal cyn y cynllun

Isod: Ar ôl cwblhau'r cynllun.



Isod: Lluniau o'r ardal cyn ac ar ôl y cynllun.






Isod: Cafodd tarmac newydd ei osod er mwyn mynd i'r afael â darn a oedd yn gwthio allan ar bob ochr i'r bont er mwyn gwella mynediad i rai sy'n defnyddio cyfarpar cymorth symud ac yn gwthio pramiau.



## Gwelliannau ar gyfer Teithio Llesol yn Ysgol Penglais trwy arian y Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

Cafwyd grant o £24,000 i adeiladu croesfan ddyrchafedig newydd y tu ôl i Ysgol Uwchradd Penglais a throedffordd newydd at Glwb Cymdeithasol Bryn Amlwg, sydd yn llwybr poblogaidd iawn gan ddisgyblion sy'n cerdded i'r ysgol ac yn ôl.

Mae'r groesfan ddyrchafedig hefyd yn ymestyn allan ac mae system flaenoriaeth ar gyfer y traffig.. Mi wnaiff helpu'r Awdurdod yn y bwriad sydd ganddo i weithredu parth 20 mya fel rhan o'r Adolygiad ar y Terfynau Cyflymder, a fydd yn dod i ben ddiwedd 2016.

**Isod:** Llun o'r ardal cyn y cynllun sy'n dangos y disgyblion yn cerdded yn y ffordd ym mynedfa Bryn Amlwg, a llun wedyn o'r ardal ar ôl gweithredu'r cynllun, sy'n dangos y droedffordd newydd.








**Uchod:** Llun o'r ardal cyn y cynllun **Isod:** Llun o'r ardal ar ôl y cynllun sy'n dangos y groesfan ddyrchafedig newydd a'r rhan sy'n ymestyn allan gan sicrhau llai o bellter o ran croesi a system flaenoriaeth ar gyfer y traffig. Mae'r rheiliau diogelwch newydd wedi bod yn effeithiol yn rhwystro'r disgyblion rhag croesi ym mynedfa Bryn Amlwg oherwydd cânt eu hebrwng i ddefnyddio'r groesfan newydd.






## Gwaith Cyngor Sir Ceredigion (heb arian grantiau)

Mae gwterydd sy'n addas ar gyfer beiciau wedi eu gosod.



Arwyddion cyfeirio gwell ar gyfer beicwyr a cherddwyr.











**Gari Jones**
**Peiriannydd Cynorthwyol y Strategaeth Drafnidiaeth**
**Y Gwasanaethau Technegol**
**Cyngor Sir Ceredigion**

**[gwasanaethau.technegol@ceredigion.gov.uk](mailto:gwasanaethau.technegol@ceredigion.gov.uk)**

**Awst 2016**